Datganodd papur swyddogol Plaid Gomiwnyddol Vietnam, Nhan Dan yn 1996.... "*Dylai pawb ymdrechu i grynhoi cymaint o gyfoeth ag sy`n bosib iddyn nhw`u hunain er mwyn hyrwyddo twf economaidd... Bydd yn anodd osgoi bychau rhwng y tlawd a`r cyfoethog.*" Erbyn 1988 roedd byddinoedd economaidd y system gyfalafol - Banc y Byd, Banc Datblygu Asia a`r IMF - i gyd wedi agor swyddfeydd newydd yn Hanoi. Llifodd dynion busnes o Ewrop a Japan i`r wlad. Roedd Nixon wedi disgrifio De-Ddwyrain Asia fel "The Prize", ac yn awr roedd y gorllewin yn symud mewn i hawlio`i gwobr. Yn 1994 cododd yr Arlywydd Clinton yr embargo ar Vietnam, ac yn 1995 symudodd llys-gennad Americanaidd i Hanoi i agor swyddfa.

Cafodd gwledydd y gorllewin eu gwobr, ond pobl Vietnam sy`n gorfod talu amdani. Roedd Vietnam yn gorfod addo gwneud "diwygiadau angenrheidiol" er mwyn derbyn $1.8 biliwn mewn grantiau a benthyciadau wrth wahanol gyrff. Golygai hyn agor marchnadoedd Vietnam i`r gorllewin, lleihau ymyrraeth y wladwriaeth, a diswyddo miloedd o weision cyhoeddus. Roedd yn rhaid i Vietnam gael gwared ar wasanaethau cyhoeddus fel iechyd ac addysg, a chyflwyno "safety nets" Thatcheraidd yn eu lle. Roedd yn rhaid i weithwyr Vietnam gynnig eu llafur am "bris cystadleuol". Mewn gwirionedd y pris yr oedd yn rhaid i Vietnam dalu am ymuno gyda`r gymuned ryngwladol oedd creu cymdeithas ranedig o ran cyfoeth, ble byddai mwyafrif yn byw mewn tlodi ac yn cael eu hecsploitio.

Dywedodd Gabriel Kolko am Vietnam... "*Bydd Rhyfel Vietnam yn dod i ben trwy drechu pawb wnaeth ymladd ynddo - hwn yw un o`r trychinebau mwyaf mewn hanes modern*"

Mewn llai na deng mlynedd mae polisiau Thatcheraidd llywodraeth Vietnam wedi cael gwared ar y lefel uchel o gyfiawnder cymdeithasol oedd yn bodoli ar ôl y rhyfel ac wedi creu cymdeithas ddosbarth gyda rhaniadau cyfoeth gwaeth nag India. Ym marn un economegydd o Ganada....

"*Mae llwyddiannau`r gorffennol a dyheadau cenedl gyfan yn cael eu dinistrio a`u dileu... Nid Agent Orange na bomiau dur, nid cemegau gwenwynig, ond arfau dinistriol economaidd newydd.*"

Wrth i gyfalaf tamor ddod i reoli diwydiannau fel olew a dur, mae`r economi`n cael ei redeg fwy fwy gan gwmniau masnachol rhyngwladol. Mae`r Ddoler mwy neu lai wedi cymryd lle`r Pong fel prif arian, a gellid dadlau bod hyn wedi trosglwyddo rheolaeth o`r economi i ddwylo sefydliadau llywodraeth America. Efallai mai un o elfennau gwaethaf y Gyfalafiaeth Newydd yw`r EPZ - neu`r Export Processing Zones. Bu Kenneth Clarke ar ymweliad ag un o`r rhain yn 1995 a chanfod bod pobl yn gweithio yno am $35 y mis: wnaeth Clarke ddim cwyno wrth lywodraeth Vietnam. Mewn EPZ mae pobl yn gorfod byw mewn barics, ac yn gorfod gweithio oriau hir i gwmniau mawr sy`n talu cyflogau isel iddyn nhw. Mae dros 100,000 o bobl Vietnam yn byw mewn un EPZ yn ne Saigon.

Mae gweithwyr a phobl gyffredin Vietnam yn dechrau brwydro nôl yn erbyn brâd eu llywodraeth, ac yn erbyn y cwmniau rhyngwladol mawr. Yn 1997 cafwyd cyfres o streiciau yn EPZ cwmni Nike sy`n cyflogi pobl am $1.80 y dydd. Efallai bod ysbryd Ho Chi Minh ar gerdded unwaith yn rhagor, ac y byddwn yn gweld pobl Vietnam yn codi unwaith eto i frwydro dros gymdeithas deg a chyfiawn.

Mae Banc y Byd wedi gorfodi`r llywodraeth i newid y system ffermio o fod yn gynhaliol i fod yn fasnachol, ac mae miloedd o bobl Vietnam wedi gorfod gadael y tir. Yn ôl amcangyfrifon y Banc ei hun mae 70% o`r boblogaeth yn byw mewn tlodi llwyr erbyn heddiw. Mae dros ddwy filiwn wedi colli eu gwaith, y rhan fwyaf o`r rhain o`r Gwasanaeth Iechyd oedd unwaith yn enwog am ddarparu gofal iechyd yn rhad ac am ddim. Nawr mae cyffuriau`n cael eu gwerthu ar y Farchnad Ddu, a gwely mewn ysbyty am ddiwrnod yn costio mwy na chyflog wythnos llawer o bobl. Yn 1980 roedd llythrennedd yn Vietnam yn 90%, ond mae wedi disgyn erbyn heddiw wrth i dri chwarter miliwn o blant adael y system addysg wedi iddi gael ei phreifateiddio.

Viet Kong Phooey!

y PONG yn disgyn!

Y CROESGADAU.

900 mlynedd yn ôl, ar ddydd Gwener y 15fed o Orffennaf, 1099 rhuthrodd marchog ifanc 21 oed o`r enw Tancred a`i ddilynwyr i mewn i Deml yn Jerwsalem a llofruddio 20,000 o Foslemiaid. Dyma ddiwedd y cyntaf o`r Croesgadau, oedd wedi cychwyn dair mlynedd ynghynt, ac oedd yn cynnwys brwydrau yn erbyn ysbrydion, Moslemiaid a defaid!

Lansiwyd y cyntaf o`r croesgadau gan y Pâb Urban II yn 1095 yn Clement, Ffrainc. Mewn datganiad wrth ddegau o filoedd o bobl dywedodd ei fod wedi derbyn cais wrth Ymerawdwr Byzantium am gymorth i ymladd y Twrciaid: roedd hwn yn gyfle gwych i Urban ymddangos fel y person fyddai`n achub yr Eglwys yn y Dwyrain, gan roi`r cyfle iddo ddod i reoli`r eglwys i gyd. Galwodd ar Gristnogion i arfogi eu hunain yn enw Cristnogaeth, a mynd ati i achub eu brodyr yn y Dwyrain ac achub Jerwsalem, canolfan y bydysawd. Gallai Urban gynnig tâl i`r rhai oedd yn fodlon ymladd, ond gallai hefyd gynnig rhywbeth newydd, paradwys. Byddai pechodau pawb fyddai`n rhan o`r groesgad yn cael eu maddau.

Doedd Urban ddim yn rhagweld y byddai Joe Cyhoeddus eisiau bod yn rhan o`r fenter, ond crewyd gymaint o hysteria torfol gan y groesgad fel bod mynaich yn pregethu a recriwtio ar hyd a lled Ewrop, gan annog pobl i adael eu gwaith a mynd i Jerwsalem. Arweinydd byddin y bobl oedd Pedr Feudwy, pregethwr brwnt oedd byth yn ymolchi ac oedd yn byw ar win a physgod.

Crewyd brwdfrydedd pellach oherwydd y credai llawer y byddai cymaint o Gristnogion yn Jerwsalem ar yr un pryd yn arwain at ail-ddyfodiad y Meseia. Ond nid brwydr ddwyfol yn erbyn paganiaeth oedd y croesgadau. Y bobl gyntaf i gael eu llofruddio oedd Iddewon yr Almaen. Yn ystod 1096 llofruddiwyd degau o filoedd o Iddewon y Rheindir - credai`r croesgadwyr bod hawl ganddyn nhw i wneud hyn. Wedi`r cyfan roedd Urban wedi eu hannog i ladd gelynion Cristnogaeth, a`r Iddewon oedd wedi lladd Crist. Unwaith i`r gwaed ddechrau llifo doedd dim modd atal byddin Pedr Feudwy, a symudodd i`r de tua Belgrade gan lofruddio 4,000 o bobl ar y ffordd. Roedd pobl Belgrade wedi gadael y ddinas cyn iddyn nhw gyrraedd ond fe aethon nhw ati i`w dinistrio beth bynnag.

I`r de eto at Gaergystennin, ble cawsant eu gorchymyn i droi i gyfeiriad arall gan yr Ymerawdwr Alexius. Symudodd y fyddin felly at Anatolia, ble aethon nhw ati i gyflawni gweithredoedd dwyfol fel poenydio a llofruddio. Llosgwyd plant, a defnyddiwyd babis a phennau pobl fel magnelau. Yr unig broblem oedd yn codi oedd bod y mwyafrif o drigolion Anatolia yn Gristnogion. Yn y diwedd fe gwrddodd byddin Pedr Feudwy â byddin o Dwrciaid yn Nicae, a chawsant eu trechu. Roedd Croesgad y bobl ar ben.

Yn y cyfamser roedd y croesgadwyr proffesiynol yn symud tua`r dwyrain - brigad yngwladol o farchogion oedd â dim diwylliant, iaith na theyrngarwch yn gyffredin. Wedi cipio Nicae yn 1097 gorymdeithiodd y croesgadwyr at Antioch ble roedd Pedr, Paul a Barnabas wedi sefydlu`r gymuned Gristnogol gyntaf. Roedd yr ardal ym meddiant y Twrciaid ond roedd yn allweddol i`r Croesgadwyr oherwydd ei fod mewn man strategol pwysig ar y ffordd o Asia leiaf i Syria. Roedd Antioch yn enfawr, gyda welydd yn ymestyn am 25 milltir, ac roedd yn ymddangos fel man anodd iawn i`w gymryd.

PENNEMARCH JONES

Felly doedd dim i wneud ond disgwyl, a dechreuodd y croesgadwyr wneud hyn yn 1097. Erbyn y Gwanwyn 1098 roedd bwyd y Twrciaid yn y ddinas yn dechrau mynd yn brin, a bwyd o croesgadwyr yn brinach fyth. Bu farw cannoedd ohonyn nhw o newyn. Yn waeth fyth gwyddai`r croesgadwyr bod byddin enfawr dan arweiniad Emir Mosul ar y ffordd i

helpu`r Twrciaid. Dechreuodd rhai pobl adael byddin y croesgadwyr, wedi cael digon, gan gynnwys Stephen de Blois a`i ddynion. Ar yr ail o Fehefin newidiodd pethau, wrth i un o`r gwylwyr yn y ddinas adael y croesgadwyr mewn. O fewn oriau doedd dim o`r Twrciaid yn dal yn fyw yn Antioch.

Y broblem nawr oedd nad oedd bwyd ar ôl yn y ddinas, a bod byddin yr Emir yn agosau. Cyrhaeddodd wythnos yn ddiweddarach a gallai`r croesgadwyr wneud dim ond gweddio y byddai`r ymerawdwr yn anfon cymorth atyn nhw. Roedd yr Ymerawdwr ar ei ffordd ond yn anffodus i`r croesgadwyr daeth ar draws Stephen de Blois wnaeth ddweud wrth eu bod wedi colli Antioch, a throdd yr ymerawdwr a`i fyddin yn ôl. Erbyn hyn roedd 20,000 o groesgadwyr newynog yn Antioch yn symud mewn i extra time.

Penderfynodd y croesgadwyr orymdeithio o`r ddinas a marw yn brwydro`n erbyn byddin enfawr yr Emir. Bryd hynny cafwyd gwyrth - gwelodd byddin yr Emir ysbrydion yn dod dros gopa cyfagos ac fe redon nhw i ffwrdd oherwydd eu hofn. Yr `ysbrydion` hyn oedd byddin Foslemaidd arall oedd ddim eisiau gweld yr Emir yn cymryd Antioch ac yn mynd yn rhy bwerus.

Dim ond tri chan milltir o`r ddinas sanctaidd oedd y creosgadwyr erbyn hyn, ac wrth deithio tuag ati cafwyd un o`r brwydrau mwyaf rhyfedd erioed, pan ymladdodd y croesgadwyr yn erbyn castell oedd yn cael ei hamddiffyn gan ddefaid. Roedd y bobl leol wedi ffoi o`r castell gan adael eu defaid ar ôl. Ar ôl ymosod ar y castell am beth amser sylweddolodd y croesgadwyr nad oedd neb yn ymladd yn ôl. Pan wnaethon nhw fynd mewn i`r castell fe sylweddolon nhw eu bod wedi bod yn brwydro yn erbyn praidd o ddefaid.

Symudodd y croesgadwyr ymlaen i Jerwsalem, ac yno cafwyd y frwydr olaf o`r groesgad gyntaf, gyda`r llofruddio a`r poenydio yn cyrraedd lefel nas gwelwyd erioed o`r blaen. Yn ystod yr ymosodiad ffodd y Moslemiaid i mewn i Fosg ac ildio i`r Cristnogion. Ac yno, 900 mlynedd yn ôl, ar ddydd Gwener y 15fed o Orffennaf, 1099 rhuthrodd marchog ifanc 21 oed o`r enw Tancred a`i ddilynwyr i mewn i Deml yn Jerwsalem a llofruddio 20,000 o Foslemiaid. Dyma ddiwedd y cyntaf o`r Croesgadau, oedd wedi cychwyn dair mlynedd ynghynt, ac oedd yn cynnwys brwydrau yn erbyn ysbrydion, Moslemiaid a defaid!

A dyma ni yn y Wacky Races ble mae pawb am adael gweddill Cymru a chyrraedd Caerdydd! Ac yn gyntaf ar y grid mae Peter Perfect Hain yn y Turbo Terrific, yna Ron Ruffcut Davies yn y Buzzwagon. Yn dilyn mae'r Super Furry Animals yn yr Army Surplus Special, yr Ankst Hill Mob yn y Bullet Proof Bomb, a dyma Penelope Pitstop Cymru, Cerys Matthews yn y Compact Pussycat. Nesaf mae'r Gruesome Twosome, Dafydd Wigley a Siân Lloyd yn y Creepy Coupe. Yn dilyn mae'r Rod Max Richards, Cymdeithas yr Iaith yn yr Arkansas Chugger-bug ac yn olaf, y double dealing do-badders Tony Dastardly Blair a'i gi ffyddlon Alun Muttley Michael..... A bant â nhw! Ar y way out

WACKY RACES